O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2017 Rhif 679 (Cy. 161)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Little Mill, Man i'r Gorllewin o Frynbuga, Sir Fynwy) (Gwahardd Troi i'r Chwith ac i'r Dde Dros Dro) 2017

Gwnaed	*26 Mai 2017*
Yn dod i rym	*9 Mehefin 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A4042 Casnewydd i'r Amwythig, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Mehefin 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Little Mill, Man i'r Gorllewin o Frynbuga, Sir Fynwy) (Gwahardd Troi i'r Chwith ac i'r Dde Dros Dro) 2017.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 9 Mehefin 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y gefnffordd" *("the trunk road")* yw cefnffordd yr A4042 Casnewydd i'r Amwythig yn Sir Fynwy.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio unrhyw gerbyd i droi i'r chwith na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r chwith ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio unrhyw gerbyd i droi i'r dde na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Cymhwyso

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Mai 2017

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

DARNAU O GEFNFFORDD YR A4042 YN LITTLE MILL, MAN I'R GORLLEWIN O FRYNBUGA, SIR FYNWY.

ATODLEN 1

GWAHARDD TROI I'R CHWITH DROS DRO

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de a'r troad i'r chwith oddi ar gerbytffordd tua'r de y gefnffordd i'r A472, Berthin Road.

ATODLEN 2

GWAHARDD TROI I'R DDE DROS DRO

Y troad i'r dde oddi ar gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd i'r A472, Berthin Road.